Rhif Cwmni: 6156176
menter iaith Castell-nedd Port Talbot

Rhif Cwmni: 06693822
menter iaith abertawe

Y FARI LWYD

Daeth yr hen arfer o dywys y 'Fari Lwyd' o gwmpas tai o hen ddefod a oedd unwaith yn ymwneud â ffrwythlondeb, mae'n debyg. Byddai'n digwydd o noswyl y Nadolig hyd Ionawr y 6ed ac weithiau ar ôl hynny hyd yn oed ac roedd i'r ddefod gysylltiad arbennig â Nos Ystwyll (sef Ionawr y 5ed). Mae'r ffigwr hwn o ben ceffyl yn ddigon adnabyddus yn nefodau tymhorol gwledydd eraill hefyd.

Roedd y traddodiad yn arfer dechrau wrth iddi nosi, gan barhau hyd oriau mân y bore yn aml. Roedd criw'r Fari Lwyd yn cynnwys rhwng 4 a 7 o ddynion, yn aml gyda rhubanau a rhosenni lliwgar ar eu dillad, ac ambell dro byddai rhai yn gwisgo belt lliwgar o amgylch eu canol.

Fel arfer byddai arweinydd wedi gwisgo'n smart ac yn cario ffon neu chwip, a byddai cymeriadau 'stoc' eraill er enghraifft y cerddor, Punch a Judy (y ddau wedi eu chwarae gan ddynion) gyda wynebau wedi'i duo a'u gwisgoedd lliwgar, gyda Punch yn cario procer hir a Judy gyda ysgub. Byddai'r Fari Lwyd yn agosau at gartref a chanu cân lle roedden nhw'n gofyn am fynediad.

"Wel dyma ni'n dwad
Gyfeillion diniwad
I ofyn am gennad
I ofyn am gennad
I ofyn am gennad i ganu."

Byddai perchnogion y cartref wedyn yn cynnig esgusodion pam na ddylen nhw gael mynediad. Byddai'r criw yn canu ail bennill a byddai'r ddadl, neu'r pwnco, rhwng y ddwy ochr yn parhau nes bod perchnogion y cartref yn rhedeg allan o syniadau. Wedyn byddai gorfodaeth arnyn nhw i wahodd y criw i'r tŷ a chynnig bwyd a chwrw iddyn nhw.

Rhif Cwmni: 6156176
menter iaith Castell-nedd Port Talbot

PEN A CHYNFFON

Rhif Cwmni: 06693822
menter iaith abertawe

1. Yn ôl y traddodiad byddai'r Fari Lwyd
2. Byddai'n digwydd o noswyl Nadolig
3. Wrth iddi nosi byddai'r criw yn dechrau allan gyda'r Fari Lwyd
4. Fel arfer roedd rhwng
5. Roedden nhw'n gwisgo
6. Byddai'r Fari a'r criw yn canu pennill tu allan i gartref
7. Enw ar y penillion yma ar ffurf dadl
8. Unwaith roedd y bobl yn y cartref yn rhedeg allan o esgusodion roedden nhw'n gorfod

a. 4 a 7 o ddynion yn y criw.
b. a byddai'r rhai yn y cartref yn ateb gydag esgusodion pam na ddylen nhw gael mynediad.
c. hyd at lonawr y 6ed.
ch. cynnig bwyd a chwrw i'r Fari Lwyd a'r criw.
d. oedd pwnco.
dd. gan barhau hyd oriau mân y bore yn aml.
e. rhubanau a rhosenni lliwgar ar eu dillad.
f. yn cael ei thywys o gartref i gartref.

Rhif Cwmni: 6156176
menter iaith Castell-nedd Port Talbot

ATEBION PEN A CHYNFFON

Rhif Cwmni: 06693822
menter iaith abertawe

1. Yn ôl y traddodiad byddai'r Fari Lwyd	f. yn cael ei thywys o gartref i gartref.
2. Byddai'n digwydd o noswyl Nadolig	c. hyd at lonawr y 6ed.
3. Wrth iddi nosi byddai'r criw yn dechrau allan gyda'r Fari Lwyd	dd. gan barhau hyd oriau mân y bore yn aml.
4. Fel arfer roedd rhwng	a. 4 a 7 o ddynion yn y criw.
5. Roedden nhw'n gwisgo	e. rhubanau a rhosenni lliwgar ar eu dillad.
6. Byddai'r Fari a'r criw yn canu pennill tu allan i gartref	b. a byddai'r rhai yn y cartref yn ateb gydag esgusodion pam na ddylen nhw gael mynediad.
7. Enw ar y penillion yma ar ffurf dadl	d. oedd pwnco.
8. Unwaith roedd y bobl yn y cartref yn rhedeg allan o esgusodion roedden nhw'n gorfod	ch. cynnig bwyd a chwrw i'r Fari Lwyd a'r criw.